OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *25 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 25 Ionawr 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A487 Trunk Road (North Parade, Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *21 January 2021* |
| *Coming into force* | *25 January 2021* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1),** make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A487 Trunk Road (North Parade, Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and it comes into force on 25 January 2021.

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used in connection with the works giving rise to this Order;

**(1)** 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 25 Ionawr 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Popty hyd at bwynt 5 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Gogledd.

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A487 Fishguard to Bangor trunk road that extends from a point 5 metres east of the centre-point of its junction with Baker Street to a point 5 metres west of the centre-point of its junction with North Road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means the period commencing at 18:00 on the 25 January 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ionawr 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 21 January 2021

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (RHODFA'R GOGLEDD, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Aberystwyth, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r A487 o'r enw Rhodfa'r Gogledd sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Popty

## THE A487 TRUNK ROAD (NORTH PARADE, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Aberystwyth, Ceredigion.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 known as North Parade that extends from a point 5 metres east of the centre-point of its junction with Baker Street to a point 5 metres west of the

hyd at bwynt 5 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Gogledd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd-ddwyrain fydd mynd tua'r de ar hyd y Ffynnon Haearn, tua'r de ar hyd Coedlan y Parc, tua'r gogledd-ddwyrain ar yr A4120 Heol y Bont a thua'r gogledd-orllewin ar yr A44 Ffordd Sulien i ailymuno â'r A487.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de-orllewin fydd mynd tua'r gogledd-orllewin ar hyd Ffordd y Gogledd, tua'r gorllewin ar hyd Coedlan y Frenhines, tua'r de-ddwyrain ar hyd Morfa Mawr, tua'r de-orllewin ar hyd Stryd Portland a thua'r de-ddwyrain i ailymuno â'r A487.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos o 18:00 o'r gloch ar 25 Ionawr 2021 tan 06:00 o'r gloch ar 30 Ionawr 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

centre-point of its junction with North Road.

The alternative route for north-eastbound traffic will be southbound along Chalybeate Street, southbound along Park Avenue, north-eastbound along the A4120 Heol y Bont and north-westbound on the A44 at Ffordd Sulien to re-join the A487.

The alternative route for south-westbound traffic will be north-westbound along North Road, westbound on Queens Avenue, south-eastbound on Queens's Road south-westbound on Portland Street and south eastbound to re-join the A487.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight from 18:00 hours on 25 January 2021 until 06:00 hours on 30 January 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government